

Yn dilyn cyfarwyddyd a gafwyd yn sgil y Coronafeirws, cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Talylychau o bell trwy gynhadledd fideo/ffôn nos Fercher 20 Mai, 2020 am 7.30pm.

Roedd yr aelodau canlynol yn bresennol: Trwy fideo – y Cynghorwyr Janine Roberts (Cadeirydd), Sarah Walters, Pauline George, Steve Haines, Rhys Williams, y Cynghorydd Sir Joseph Davies a Jane Morgan (Clerc)

Dros y ffôn – Marged Bowen (tan 8.35pm.) a John Williams. Ymddiheuriadau – Eifion Roberts.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Ni nodwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

Nodwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 3 Mawrth, 2020, ac a gylchredwyd trwy neges e-bost, yn gywir.

Materion sy'n codi.

Croesawyd Steve Haines i'w gyfarfod cyntaf fel Cynghorydd.

Roedd wedi'i gadarnhau y bydd Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Sir Gaerfyrddin 2021 bellach yn cael ei chynnal yn 2022.

Oherwydd y Coronafeirws bu'n rhaid canslo'r Cinio Blynyddol.

'Pecynnau Dechreuol' Lleoedd Lleol ar gyfer Natur. Cadarnhawyd y byddem yn gymwys yn unig ar gyfer y Pecynnau Dechreuol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned. Nid oedd unrhyw gamau pellach wedi'u cymryd.

Cyfeiriad at neges e-bost a anfonwyd at y Cynghorwyr 11.04.2020. Cadarnhad ynghylch y canlynol: Roedd glaswellt y Cae Cymunedol wedi cael ei dorri. Cytunwyd i dderbyn yr un tendr a ddaeth i law am £120 y toriad yn ogystal â TAW.

Torri Glaswellt Mynwent Eglwys Sant Mihangel. Cytunwyd i dderbyn yr un tendr a ddaeth i law am gyfanswm o £2,500.

Cafwyd Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus ar gyfer y ddau dendr.

Cytunwyd i dalu'r canlynol: Trywydd am wasanaethau cyfieithu £58.22. Cyngor Sir Caerfyrddin, Goleuo'r Droedffordd £814.61. Cyflog y Clerc £152.66. Cyllid a Thollau EM £38.00. Treuliau Clerc y Fynwent £30.00.

Derbyniwyd y Datganiad o Gyfrifon fel yr oedd ar 31 Mawrth 2020. I'w lofnodi gan y Cadeirydd a'r Clerc. Copïau i'w rhoi ar y ddau hysbysfwrdd ac ar y wefan.

Cafwyd a thrafodwyd yr Hysbysiad o Archwiliad ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020.

Datganiad ar ran y Cyngor Cymuned ynghylch y coronafeirws wedi'i osod ar y wefan ac ar y ddau Hysbysfwrdd.

Cyfeiriad at neges e-bost a anfonwyd at y Cynghorwyr 05.05.2020. Cadarnhad ynghylch y canlynol: Cytunwyd y dylid dilyn y canllawiau a chynnal y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn ddiweddarach yn 2020. Diolch i Janine Roberts am gytuno i barhau â dyletswyddau'r Cadeirydd a Sarah Walters fel Is-gadeirydd.

Cytunwyd i dalu'r canlynol: Cyflog y Clerc £152.46. Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi £38.20. Treuliau Clerc y Fynwent. £10.00.

Nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi o ohebiaeth arall a anfonwyd at y Cynghorwyr trwy neges e-bost.

Yn dilyn gohebiaeth a gafwyd trwy'r post trafodwyd.

Hysbysiad gan Gyngor Sir Caerfyrddin bod y Praesept wedi cyrraedd 27.04.2020 cyfanswm o £3,333.34.

Llythyr gan Swyddfa Archwilio Cymru. COVID-19 ac archwilio Cyngorau Cymuned a Thref.

Un Llais Cymru. Coronafeirws – Gwybodaeth i Gyngorau Cymuned a Thref.

Llythyr gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Gwybodaeth ynghylch yr etholiadau a ohiriwyd oherwydd Covid-19.

Clerks & Councils Direct.

Y Rheoleiddiwr Pensiynau. Dyletswyddau Cofrestru Awtomatig: Cafwyd cydnabyddiaeth o ail-ddatgan cydymffurfedd.

Cynllunio.

Cyfeiriad at neges e-bost a anfonwyd at y Cyngorwyr 06.05.2020 a 12.05.2020.

CAIS RHIF E/40511. Gosod Polyn Telegraff 19.7M o uchder ar sylfaen goncrit, sy'n cynnwys 3 Antena a 2 Ddysgl Trawsyrru 300MM, ar gyfer Rhwydwaith Gwasanaethau Brys EE (ESN). Roedd y cynnig hefyd yn cynnwys gosod 3 x Cabinet Offer (790MM x 710MM x 1645MM, 750MM x 600MM x 2100MM, 600MM x 520MM x 1410MM); 1 Cabinet Mesurydd Trydanol (1110MM x 415MM x 1290MM); 1 Ddysgl Lloeren 1200MM ar Bolyn Cynnal 2.6M o uchder mewn Ardal 10M x 10M, wedi'i hamgylchynu gan Ffens Pyst a Rheiliau 1.2M o uchder. LLEOLIAD. Tir ym Mlaenig Uchaf, Talylychau. YMGEISYDD/YMGEISWYR. EE Limited. Cytunwyd y dylid anfon ateb fel y gwnaed yn flaenorol yn gwrthwynebu'r cais hwn am y rhesymau a ganlyn: O fewn golwg i Ardal Gadwraeth. Nid yw'n gweddu i'r ardal. Mae yna Henebion yn yr ardal. Agosrwydd at Ysgol ac eiddo preswyl, a phryder ynghylch y risg i iechyd. Cytunwyd i ychwanegu'r sylw canlynol: Hyd y gwyddom nid yw'r tîrfeddianwyr wedi rhoi caniatâd ar gyfer y cais hwn, felly sut y gellid ei ganiatáu? Cyfeiriwch at yr adroddiad a gyflwynwyd gan Mr a Mrs Nakielny. Cytunwyd y dylai'r Clerc anfon neges e-bost at Bennaeth Ysgol Talylychau i weld beth yw teimladau'r Ysgol ynglŷn â'r Cais hwn.

Cais Rhif E/40604. Cais Cynllunio Llawn. Newid defnydd y tir o amaethyddiaeth i ddefnydd cymysg, sef amaethyddiaeth a marchogaeth, ynghyd â chodi lloches ceffylau, adeilad i gadw geifr a manège. Tir i'r de o Gyflenwadau Adeiladu D L Williams, Talylychau ar gyfer Mr a Mrs Lavis. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd bod angen rhagor o fanylion ynglŷn â'r cais hwn, a galwodd y Cadeirydd am gael cynnal Cyfarfod ychwanegol o bell nos Fercher, 27.05.2020 am 8pm i drafod ymhellach. Mynwent yr Eglwys.

Cafwyd neges e-bost ynglŷn â'r sbwriel sy'n cael ei ddympio ym mynwent yr Eglwys. Byddai'r Clerc yn mynd ar drywydd y gwaith o osod arwydd.

Neges e-bost gan y contractwyr sy'n torri'r glaswellt, yn gofyn a oedd yn bosibl gwneud un toriad ychwanegol. Cytunwyd i drafod hyn yng nghyfarfod mis Mehefin.

Dirprwyo pwerau yn ystod cyfnod o Argyfwng Cenedlaethol. Cytunwyd, gan ein bod yn gallu cynnal cyfarfodydd o bell gan ddefnyddio fideo/y ffôn, na fyddai angen hyn.

Nid oedd yna unrhyw fusnes arall a daeth y cyfarfod i ben am 9.10pm

Cytunwyd i gynnal y cyfarfod nesaf o bell ar 2 Mehefin 2020 am 8pm.